# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

## Cofnodion (SC(3)-17-08)

**Dyddiad: 16 Gorffennaf 2008**
**Amser: 17:00 - 18:00**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3**

### Aelodau Cynulliad yn bresennol

Mike German (Cadeirydd), Dwyrain De Cymru
Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Lesley Griffiths, Wrecsam
Alun Ffred Jones, Arfon
Darren Millar, Gorllewin Clwyd
Brynle Williams, Gogledd Cymru
Leanne Wood, Canol De Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Virginia Hawkins, Clerc
Joanne Clinton, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Dr Brian Gibbons AC, Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol
Claire Bennett, Pennaeth yr Is-adran Newid yn yr Hinsawdd a Dŵr, Llywodraeth Cynulliad Cymru

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Estynnodd y cadeirydd groeso i bawb. Nodwyd bod Mick Bates, Karen Sinclair a Lorraine Barrett wedi anfon ymddiheuriadau am eu habsenoldeb. Yr oedd Mike German yn bresennol yn y cyfarfod yn lle Mick Bates.

### Eitem 2: Ymchwiliad i leihau allyriadau carbon yng Nghymru: sesiwn dystiolaeth ar gynhyrchu ynni

2.1 Estynnodd y cadeirydd groeso i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ac i'w swyddog, Claire Bennett. Bu'r Aelodau'n holi'r Gweinidog.

2.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu manylion am faint o gymorth a roddir gan yr Ymddiriedolaeth Garbon i bob awdurdod lleol, ynghyd â gwybodaeth bellach ar y rhwydwaith caffael cynaliadwy. Cytunodd y Gweinidog hefyd i ddarparu manylion y cytundeb i ddefnyddio gwasanaethau Salix gan awdurdodau lleol.